





## Mae ein hadroddiad blynyddol 2024-25 yn edrych yn ôl ar flwyddyn o ddiwygiadau pwysig

Rydyn ni wedi cyhoeddi ein **hadroddiad blynyddol** diweddaraf, sy'n nodi degawd ers ein sefydlu ac yn myfyrio ar flwyddyn o gynnydd sylweddol wrth siapio cymwysterau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Mae'r adroddiad yn edrych yn ôl ar flwyddyn academaidd 2024-25. Mae'n amlygu cyflwyniad llwyddiannus y cymwysterau TGAU newydd cyntaf a ddyluniwyd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gyda chymwysterau pellach yn cael eu cymeradwyo i'w cyflwyno’r flwyddyn nesaf a thu hwnt. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu'r gwaith diwygio mwyaf cynhwysfawr sydd erioed wedi cael ei wneud i gymwysterau cyn-16 yng Nghymru.

Rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda cholegau a chyrff dyfarnu i sicrhau ystod gynaliadwy o

## Our 2024-25 annual report looks back at a year of important reforms

We’ve published our latest **annual report**, marking a decade since our establishment and reflecting on a year of significant progress in shaping qualifications for learners in Wales.

The report looks back at the 2024-25 academic year. It highlights the successful introduction of the first new GCSEs designed for the Curriculum for Wales, with further qualifications approved for rollout next year and beyond. These changes represent the most comprehensive reform of pre-16 qualifications ever undertaken in Wales.

We’ve also worked with colleges and awarding bodies to secure a sustainable range of post-16 qualifications in key sectors. Read the report **here**.

gymwysterau ôl-16 mewn sectorau allweddol.
Darllenwch yr adroddiad **yma**.

---




## Codi arian ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru

Mae ein staff wedi bod yn rhedeg, yn pobi ac yn trefnu digwyddiadau i godi arian ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru, ein helusen swyddogol yn 2025.

Mae **Ambiwlans Awyr Cymru** yn darparu gofal brys sy'n achub bywydau i bawb yng Nghymru, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Fe wnaethon ni godi £1,813 i'r elusen rhwng mis Hydref 2024 a mis Rhagfyr 2025. Mewn ymdrech i godi arian, fe wnaeth 10 aelod o staff redeg ras 10K Casnewydd, fe wnaeth dau aelod o staff gwblhau Hanner Marathon Abertawe, a chynhaliwyd cystadleuaeth Pobi Cymwysterau Cymru. Bydd ein gweithgareddau codi arian ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru yn parhau tan fis Mawrth.

- Ein helusen flynyddol o Ebrill 2026 yw **2Wish**, sefydliad sy'n cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol

## Fundraising for Wales Air Ambulance is flying high

Our staff have been running, baking and organising events to raise funds for Wales Air Ambulance, our official charity in 2025.

**Wales Air Ambulance** provides advanced life-saving emergency care for everyone in Wales, 24 hours a day, 365 days a year.

We raised £1,813 for the charity between October 2024 and December 2025. Fundraising efforts included 10 staff running the Newport 10K, two staff completing the Swansea Half Marathon, and a Qualifications Wales Bake Off competition. Our fundraising for Wales Air Ambulance continues until March.

- Our annual charity from April 2026 is **2Wish**, an organisation offering vital emotional and practical support to grieving families following the death of a child or young adult. The charity was established by Cardiff mum Rhian Mannings who lost her one-

hanfodol i deuluoedd sy'n galaru ar ôl marwolaeth plentyn neu oedolyn ifanc. Sefydlwyd yr elusen gan fam o Gaerdydd, Rhian Mannings, a gollodd ei mab blwydd oed, George, yn 2012 a'i gŵr Paul bum niwrnod yn ddiweddarach.

year-old son George in 2012 and her husband Paul just five days later.




## Diweddariad ar aholiadau ac asesiadau

Pob lwc i ddysgwyr yng Nghymru sy'n sefyll arholiadau ac asesiadau fis yma, gydag arholiadau wedi eu hamserlennu hyd at 22 Ionawr.

Mae cefnogaeth ar gael trwy **hwb adnoddau Lefel Nesa**, gan gynnwys canllawiau adolygu, sesiynau ar-lein ac adnoddau lles. Hefyd, mae ein **canllaw i ddysgwyr** ar arholiadau ac asesiadau yn cynnwys gwybodaeth a chefnogaeth ddefnyddiol i unrhyw ddysgwyr sy'n cwblhau cymwysterau. Rhannwch yr adnoddau hyn gyda'ch dysgwyr.




## Dysgwyr yng Nghymru yn derbyn eu canlyniadau

Llongyfarchiadau i ddysgwyr ledled Cymru sy'n derbyn eu **canlyniadau TGAU** heddiw ar

## Exams and assessments update

Good luck to learners in Wales taking exams and assessments this month, with exams scheduled up to 22 January.

Support is available via the **Power Up content hub**, including revision guides, online sessions and wellbeing resources. Plus, our **learner guide to exams and assessments** has useful info and support for any learners completing qualifications. Please share these resources with your learners.




## Learners in Wales receive their results

Congratulations to learners across Wales who are receiving their **GCSE results** today for exams taken in November 2025.

gyfer arholiadau a safwyd ym mis Tachwedd 2025.




## Cyfle i ddweud eich dweud ar gynigion ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru

Ydych chi wedi dweud eich dweud ar y newidiadau sy'n cael eu cynnig i gymwysterau **Sgiliau Hanfodol Cymru**?

Mae mis ar ôl i chi roi eich barn ar ein **cynigion**, gan ein helpu ni i ddylunio cymwysterau newydd mewn cymhwyso rhif, cyfathrebu a llythrennedd digidol. Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 5 Chwefror. Cwblhewch ein **harolwg**.

## Have your say on proposals for Essential Skills Wales qualifications

Have you had your say on proposed changes to **Essential Skills Wales** qualifications?

There's one month left to tell us your views on our **proposals**, helping us design new qualifications in application of number, communications and digital literacy. The consultation closes on 5 February. Take our **survey**.

## Cynnig Cymwysterau Cenedlaethol y canolfannau

**Noder bod y diweddariad hwn yn benodol ar gyfer canolfannau.**

## Centres' National Qualifications offer

**Please note, this update is specifically for centres.**

Diolch i'r rheiny ohonoch sydd wedi ymateb i'n harolwg yn holi am gynnig Cymwysterau Cenedlaethol newydd canolfannau. Dyma'ch cyfle olaf i gyflwyno ymateb cyn **29 Ionawr**. Gallwch chi ei gwblhau **yma**.

Mae'r arolwg yn gofyn pa rai o'r cymwysterau TGAU newydd y byddwch chi'n eu cynnig i'ch dysgwyr ac am eich cynlluniau presennol ynghylch y cymwysterau TAAU, Sylfaen a Chyfres Sgiliau newydd sy'n dod ym mis Medi 2027.

Thank you to those who have responded to our survey inquiring about centres' new National Qualifications offer. This is your final opportunity to submit a response before **29 January**. You can complete it **here**.

The survey asks about the new GCSEs you will be offering to your learners and your current plans regarding the new VCSE, Foundation and Skills Suite qualifications coming in September 2027.

---




## Helpwch ni i werthuso'r Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 newydd

Ydych chi'n ymarferydd addysgu, yn uwch arweinydd neu'n rhiant i ddysgwr ym Mlwyddyn 10? Rydyn ni'n gofyn i chi rannu eich profiadau a'ch barn ar ddiwygiadau i gymwysterau, gan gynnwys y don gyntaf o gymwysterau TGAU.

Rydyn ni wedi comisiynu Alma Economics i gynnal ymchwil gwerthuso ar y Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 newydd. Nod y prosiect yw deall sut mae'r cynnig yn cael ei weithredu ac a yw'r manteision a fwriedir yn cael eu gwireddu. Cymerwch ran yn ein **harolwg**.

## Help us evaluate the new National 14-16 Qualifications

Are you a teaching practitioner, senior leader or parent of a learner in Year 10? We're asking you to share your experiences and views on reforms to qualifications including the first wave of GCSEs.

We've commissioned Alma Economics to carry out evaluation research into the new National 14-16 Qualifications. The project aims to understand how the offer is being implemented and whether the intended benefits are being realised. Take part in our **survey.**




## Diolch i bawb a ddaeth i'n Fforwm i Gyrff Dyfarnu

Fe wnaethon ni gynnal ein Fforwm blynyddol i Gyrff Dyfarnu ym mis Rhagfyr, a daeth cynrychiolwyr o dros 30 o gyrff dyfarnu i'r digwyddiad. Diolch i bawb a fynychodd y digwyddiad i ddysgu am y diweddariadau am ein gwaith ac i rannu gwybodaeth, a diolch yn arbennig i'n siaradwyr allanol Lisa O'Connor o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Heather Davidson o Medr a Luise Ruddick o Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu.

## Thank you to everyone who attended our Awarding Bodies Forum

We hosted our annual Awarding Bodies Forum in December, attended by delegates from more than 30 awarding bodies. Thanks to those who attended to get updates on our work and share information, and a special thank you to our external speakers Lisa O'Connor of Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Heather Davidson of Medr and Luise Ruddick of the Federation of Awarding Bodies.



## Swyddi a chyfleoedd

Rheolwr Cymwysterau

## Jobs and opportunities

Qualifications Manager



## Cyhoeddiadau diweddar

Camymddwyn yng nghymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nhgymru: cyfres arholiadau haf 2025

Adolygiadau o waith marcio a chymedroli ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch: haf 2025

## Gohebiaeth ddiweddaraf

Edrychwch ar ein holl lythyrau diweddar at Swyddogion Cyfrifol cyrff dyfarnu cydnabyddedig, Penaethiaid Canolfannau, a rhanddeiliaid eraill ar ein tudalen we bwrpasol.

## Dilynwch ni ar:

Facebook
LinkedIn
Instagram
Bluesky
X

## Recent publications

Malpractice in GCSE, AS and A level in Wales: summer 2025 exam series

Reviews of marking and moderation for GCSE, AS and A level: summer 2025

## Latest correspondence

Take a look at all our recent letters to recognised awarding body Responsible Officers, Heads of Centres, and other stakeholders on our dedicated webpage.

## Follow us on:

Facebook
LinkedIn
Instagram
Bluesky
X

Ar gyfer Penaethiaid, Swyddogion Arholiadau a Swyddogion Cyfrifol: Rydych yn derbyn y postio hwn fel cyswllt cynradd mewn sefydliad rhanddeiliaid. Sylwch ein bod yn cadw eich manylion cyswllt ar ein systemau o dan sail gyfreithiol prosesu er budd y cyhoedd ac yn unol â'n swyddogaethau statudol o dan adran 46 o Ddeddf Cymwysterau 2015. Am fwy o fanylion cyfeiriwch at ein hysbysiad preifatrwydd.

Gall tanysgrifwyr ddad-danysgrifio isod.

For Heads, Exam Officers and Responsible Officers: You are receiving this mailing as a primary contact at a stakeholder organisation. Please note that we retain your contact details on our systems under the legal basis of processing in the public interest and in accordance with our statutory functions under section 46 of the Qualifications Act 2015. For further details please refer to our privacy notice.

Subscribers can unsubscribe below.

© 2022 Microsoft Dynamics. All rights reserved.
Q2 Building, Pencarn Lane, Imperial Park, Coedkernew, Newport NP10 8AR